



**Mae'r cyfrif i lawr i'r Nadolig yn hudol dros ben i gannoedd o deuluoedd y Rhyl.**

Cafodd y plantos barti am ddim gyda cherddoriaeth, hwyl a gemau ac ymweliadau gan Siôn Corn a dau robin yn llawn o hwyl yr ŵyl.


Trefnodd Cyngor Tref y Rhyl y cracer Nadolig, a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, y Rhyl. Dim ond un o nifer o ddigwyddiadau yn y cyfnod sy'n arwain at y diwrnod mawr, roedd Rockin' Rhyl yn cynnwys diddanwr plant Lozo a oedd yn rhoi adloniant i'r plant.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard: "Roedd Rockin' Rhyl yn ffordd hyfryd i'r plantos ddechrau cyfnod y Nadolig, gyda digon i'w cadw'n hapus ac ymweliadau gan westeion arbennig iawn.

"Hoffem hefyd ddiolch i ganolfan siopa'r Rhosyn Gwyn am ddarparu nwyddau am ddim i'r plant, a oedd yn help mawr i Siôn Corn ar yr adeg prysuraf yn y flwyddyn iddo.

"Mae'r cyngor tref wedi trefnu nifer fawr o weithgareddau cymunedol unwaith eto eleni ac, unwaith eto, roeddem wrth ein boddau yn gweld cymaint o bobl yn mwynhau eu hunain."

**Mwy/...**



-2-

Bydd digwyddiad nesaf y cyngor tref ar ddydd Sadwrn 25 Ionawr i ddathlu Diwrnod y Santes Dwynwen – diwrnod sy'n cyfateb yng Nghymru i Ddydd San Ffolant.

“Byddwn yn cychwyn y flwyddyn newydd trwy roddi rhoddion argraffiad cyfyngedig yn arbennig ar gyfer y Rhyl i nodi Diwrnod y Santes Dwynwen – gwylwch allan am fwy o newyddion!” ychwanegodd y Cyngorydd Chard.

**Diwedd**

